



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

**Ymgynghoriad ar Welliannau Technegol i Ddeddfwriaeth y Dreth
Gyngor i Adlewyrchu Cyflwyniad Premiymau'r Dreth Gyngor ar
Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi**

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Rhagfyr 2016

Trosolwg Ymgynghoriad ar welliannau technegol i ddeddfwriaeth y dreth gyngor i adlewyrchu cyflwyniad premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017.

Sut i ymateb Gellir anfon ymatebion mewn e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGF1Consultations@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych chi gwestiynau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

LGF1Consultations@wales.gsi.gov.uk

Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diogelu Data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr

unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol i godi premiwm y dreth gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd o 1 Ebrill 2017. O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd awdurdodau lleol yn gallu codi hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar eiddo y mae'n rhaid talu'r dreth gyngor mewn perthynas ag ef.

Er mwyn i'r awdurdodau lleol allu gweinyddu premiymau'r dreth gyngor yn effeithiol, mae amryw o welliannau ôl-ddilydol a thechnegol yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth bresennol y dreth gyngor, er enghraifft, y rheoliadau yn ymwneud â bilio. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar y gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

Mae'r rheoliadau drafft canlynol yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad:

- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2016;
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2016; a
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae'r safbwyntiau a geisir yn ymwneud â'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i hwyluso'r gwaith o gyflwyno premiymau'r dreth gyngor o 1 Ebrill 2017.

Mae'r ymgynghoriad ar gyfer awdurdodau lleol yn bennaf ac mae ar agor am gyfnod o wyth wythnos o 6 Hydref tan 1 Rhagfyr 2016.

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992")

Cefndir

Mae Rheoliadau 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor. Ymysg pethau eraill, mae Rheoliadau 1992 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau bilio gymryd camau i bennu a yw anheddau yn eu hardal yn anheddau y mae'n rhaid talu'r dreth gyngor mewn perthynas â nhw neu a ydynt wedi'u heithrio, ac yn galluogi awdurdodau bilio i gael gwybodaeth i adnabod y person sy'n gyfrifol am dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd benodol.

Ar ôl cymryd camau rhesymol i gael gwybodaeth benodol am annedd, rhaid i awdurdodau bilio roi gwybod i'r trethdalwyr am unrhyw dybiaethau y maent wedi'u gwneud wrth gyfrifo swm y dreth gyngor mewn perthynas â'r annedd honno. Mae gan bobl sydd wedi derbyn hysbysiad o'r fath ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod bilio os oes ganddynt reswm i gredu bod statws eu hannedd wedi newid.

Cynnig

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2016 drafft yn diwygio rheoliadau 14, 15 ac 16, ac Atodlen 1, yn Rheoliadau 1992.

Mae'r gwelliannau arfaethedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau bilio gymryd camau rhesymol, cyn cyfrifo'r dreth gyngor a godir, er mwyn canfod a yw'r swm yn destun premiwm ac, os felly, swm y premiwm. Yna, gall awdurdod lleol wneud tybiaethau yn seiliedig ar y camau rhesymol y mae wedi'u cymryd.

Os yw awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i rywun bod tybiaeth wedi ei gwneud bod y dreth gyngor yn destun premiwm, mae'r gwelliannau'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gywiro tybiaeth sy'n anghywir. Rhaid i drethdalwr hysbysu'r awdurdod bilio o fewn 21 diwrnod os yw'n credu:

- nad yw'r swm a godir yn destun unrhyw breimiwm; neu
- bod y swm a godir yn destun premiwm is neu uwch.

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 1992 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu'r dreth gyngor mewn rhandaliadau. Cynigir y dylid gwneud gwelliannau i Atodlen 1 i amlinellu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i awdurdod lleol addasu'r rhandaliadau sy'n daladwy pan fo hysbysiad galw am dalu wedi'i gyflwyno ar sail y ffaith bod premiwm yn berthnasol, neu nad yw'n berthnasol.

C1. Ydych chi'n cytuno y bydd y gwelliannau arfaethedig i reoliadau 1992 yn galluogi premiymau'r dreth gyngor i gael eu gweinyddu'n effeithiol?

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ("Rheoliadau 1993")

Cefndir

Mae Rheoliadau 1993 yn rhagnodi cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu'r dreth gyngor a gyhoeddir gan awdurdodau bilio a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu gyda nhw. Mae'r wybodaeth yn galluogi trethdalwyr i ddeall sut mae eu bil wedi'i gyfrifo.

Ymysg pethau eraill, rhaid i hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor nodi'r annedd y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddi; nodi'r band prisio ac esbonio, gan gyfeirio at unrhyw ddisgowntiau a gostyngiadau y tybir eu bod yn berthnasol, sut mae bil y dreth gyngor wedi'i gyfrifo.

Mae Atodlen 1 yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod ei chynnwys mewn hysbysiad galw am dalu ac mae Atodlen 2 yn amlinellu'r wybodaeth gyffredinol y mae'n rhaid ei darparu gyda hysbysiad galw am dalu.

Cynnig

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2016 drafft yn diwygio rheoliadau 1993 i adlewyrchu cyflwyniad premiymau'r dreth gyngor.

Cynigir y dylid gwneud gwelliannau i Atodlen 1 i'w gwneud hi'n ofynnol i hysbysiadau galw am dalu gynnwys datganiad o nifer y diwrnodau (os o gwbl) y tybiwyd y bydd premiwm yn berthnasol. Os yw premiwm yn berthnasol, rhaid i hysbysiad galw am dalu nodi hefyd swm y premiwm a'r rheswm drosto, yn ogystal â hysbysu'r awdurdod lleol am wybodaeth benodol a chanlyniadau posibl methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

Cynigir gwelliannau hefyd i Atodlen 2 i'w gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth esboniadol am breiymau'r dreth gyngor gyda'r hysbysiadau galw am dalu'r dreth gyngor. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys a yw'r awdurdod lleol yn codi premiwm ar gyfer y flwyddyn berthnasol ac, os felly, swm y premiwm, syniad cyffredinol o'r amgylchiadau lle mae premiwm yn berthnasol a syniad cyffredinol o'r amgylchiadau lle mae annedd wedi'i heithrio o'r premiwm.

C2. Ydych chi'n cytuno y bydd y gwelliannau arfaethedig i reoliadau 1993 yn galluogi premiymau'r dreth gyngor i gael eu gweinyddu'n effeithiol?

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998")

Cefndir

Mae Rheoliadau 1998 yn rhagnodi dau ddosbarth o annedd y gall awdurdod lleol leihau neu ddileu disgownt y dreth gyngor mewn perthynas â nhw.

Mae Dosbarth A yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:

- nad yw'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa unigolyn;
- sydd wedi'i ddodrefnu; ac
- y mae'r gyfraith yn gwahardd unrhyw un rhag ei meddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn dan sylw.

Mae Dosbarth B yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:

- nad yw'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa unigolyn;
- sydd wedi'i ddodrefnu; ac
- *nad* yw'r gyfraith yn gwahardd unrhyw un rhag ei meddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Cynnig

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016 drafft yn diwygio Rheoliadau 1998 i sicrhau cysondeb gyda'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau bach i'r dosbarthau a ragnodir gan reoliad 4 (Dosbarth A) a rheoliad 5 (Dosbarth B), gan addasu'r geiriad i egluro bod y dosbarthau hyn yn cynnwys anheddau dim preswilydd ac anheddau sydd wedi'u ddodrefnu'n sylweddol.

Nid yw newid y diffiniad o 'wedi'i ddodrefnu' i 'wedi'i ddodrefnu'n sylweddol' yn newid perthnasol yng nghwmpas y diffiniad a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau 1998; yr hyn y mae'n ei wneud yw egluro'r sefyllfa bresennol a darparu cysondeb gyda'r diffiniad o ail gartref a ddefnyddir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Yn ogystal, gwneir gwelliannau bach i newid y diffiniad o ail gartref o annedd "nad yw'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa unigolyn" i annedd "dim preswilydd" i adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn defnyddio'r ymadrodd "dim preswilydd" gan fod "preswilydd" yn cael ei ddiffinio yn adran 6 o Ddeddf 1992 fel person sydd â'i unig breswylfa neu ei brif breswylfa yn yr annedd. Felly, nid oes angen defnyddio'r ymadrodd "unig breswylfa neu brif breswylfa" gan fod y cysyniad o breswylfa eisoes wedi'i ddiffinio.

C3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y gwelliannau a wnaed i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016?

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn unrhyw sylwadau sydd gennych chi ar y gwelliannau arfaethedig i'r setiau hyn o reoliadau.

Wrth ddiwygio'r rheoliadau yma, cafodd ei ystyried a ddylid ail-wneud y rheoliadau yn hytrach nac eu diwygio. Oherwydd hyd a chymhlethdod y rheoliadau, ac er mwyn sicrhau gall awdurdodau lleol fodloni'r amserlen, credai Llywodraeth Cymru na fyddai modd gwneud y rheoliadau yn eu cyfanrwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y setiau hyn o ddiwygiadau i'r rheoliadau yn cael eu gwneud yn ddwyieithog.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar effeithiau (boed yn rhai positif neu negyddol) y rheoliadau ar y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ar sut byddai modd ffurfio diwygiadau neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif, neu leihau effeithiau negyddol, ar y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ogystal â'r sylwadau hyn, gofynnir tri chwestiwn penodol yn y ddogfen ymgynghori.

Camau Nesaf

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff yr ymatebion eu dadansoddi a chaiff unrhyw welliannau angenrheidiol eu gwneud i'r rheoliadau drafft. Y bwriad yw i'r rheoliadau diwygio gael eu gosod gerbron y Cynulliad yn yr hydref er mwyn iddynt ddod i rym cyn i awdurdodau lleol gychwyn eu prosesau bilio blynyddol.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu canllawiau i helpu gyda'r gwaith o weinyddu a gorfodi'r premiymau.